# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf held at Remote Meeting on Dydd Llun, 28ain Medi, 2020 at 2.00 pm**

| **Councillors Present** | **Officers in Attendance** |
|---|---|
| County Councillor L.Dymock (Chairman)<br>County Councillor A. Webb (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: P. Clarke, D. Dovey, A. Easson, D. Batrouni, V. Smith, J.Treharne,<br><br>Also in attendance County Councillors: J.Pratt, T.Thomas, S. Woodhouse, L.Brown, R. Edwards, L.Jones and M. Powell | Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Carl Touhig, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth<br>Laura Carter, Uwch Swyddog, Gwasanaethau Gwastraff a Strydoedd<br>Dewi Lane, Swyddog Systemau a Phrosiectau Arbennig<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant |

**YMDDIHEURIADAU:** Ddim

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Yn dilyn y cyflwyniad fideo o ymatebion preswylwyr Brynbuga, cyflwynodd Alison Ivin, aelod o Gyngor Tref Brynbuga, ymateb i'r argymhelliad a wneir yn yr adroddiad i gau Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref (CAGC) Brynbuga fel a ganlyn:

   "Mae llawer i'w ystyried yn yr adroddiad. Oherwydd y cyfyngiad amser, byddaf yn canolbwyntio ar ambell i bwynt allweddol yn unig. Yn gyntaf, £40 mil yw'r arbediad a wneir yn sgil cau Brynbuga – nid ydym yn derbyn hyn fe rheswm dros gau. Mae bron i 19,000 o gartrefi ym Mrynbuga a'r ardal gyfagos; mae cyfartaledd y treth cyngor am gartref tair llofft yn £2000, felly telir am y ffigur yma gan daliad treth cyngor 20 o gartrefi yn unig. Cost gwaith hanfodol yw £30 mil; eto, gellir talu am hyn gan 15 cartref.

   Un pwynt sydd wedi ei wneud yw bod perfformiad Brynbuga a Mitchel Troy yn tynnu cyfrannau ailgylchu i lawr, ac felly'n effeithio ar berfformiad yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru. Nid dyma'r sefyllfa eleni, gan fod y pandemig wedi gwella cyfraddau ailgylchu. Dyfynnwyd bod y gyfradd uchaf o ran ailgylchu yn Sir Fynwy wedi ei chyrraedd yn 2021 , sef 74% - felly, pe byddai Brynbuga'n aros ar agor ac yn cael y cyfle i dderbyn yr un gefnogaeth ac y mae canolfannau eraill wedi ei derbyn (o ran addysg, systemau bwcio, ac ati), mae gennym amser i wella. Mae disgwyl i'r broses caffael ddod i ben ym mis Medi 2021; nid oes angen ei gohirio

oherwydd gellir gwneud cais am gaffael gyda dwy sefyllfa wahanol. Nid oes angen gwneud penderfyniad o ran cau Brynbuga nawr.

Mae rhai ffigurau cost yn yr adroddiad, o ran y gymhariaeth gyda Mitchel Troy a Brynbuga, nad wyf yn gallu eu dilyn, ond beth bynnag, mae'r rhain yn ffigurau hanesyddol. Rydym bellach mewn cyfnod newydd, un nad oedd neb yn disgwyl bod ynddo, o ran y pandemig, sydd wedi dod â newid sydd nid yn unig yn effeithio ar ffigurau ailgylchu y sir gyfan, ond rhai Brynbuga hefyd. Rydym eisiau'r cyfle ym Mrynbuga i ddangos sut y mae ffigurau ailgylchu wedi elwa o newidiadau mewn ymddygiad . Mae'r newidiadau yma wedi digwydd yn ystod y pandemig.

Bydd angen gwneud gwaith, yn ôl pob sôn, er mwyn gwella Brynbuga. Bydd y gwaith yn costio tua £30 mil, ond mae symiau mawr wedi eu gwario'n barod yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn diogelu dyfodol y cyfleuster – nid ydym eisiau i'r arian yma gael ei daflu i ffwrdd. Roedd yn fuddsoddiad; mae angen buddsoddiad bob amser er mwyn cynnal gwasanaeth. Mewn cyferbyniad â hyn mae cost o dros £1.5 miliwn wedi ei ddyfynnu ar gyfer diweddaru Mitchel Troy. Un sylw sydd wedi ei wneud yw nad oes modd i Frynbuga ail agor am resymau sy'n ymwneud â chadw pellter cymdeithasol; mae dau weithiwr ar un safle. Rydym wedi clywed nad yw'n addas ar gyfer pobl anabl, ond gallai'r gweithwyr dan sylw helpu pobl. Gellir rheoli hyn oll drwy gadw pellter cymdeithasol, yn union fel yr ydym yn ei wneud wrth gerdded i lawr y stryd. Rydym yn gwrthwynebu un thema benodol, mai CAGC Brynbuga sy'n perfformio waethaf yn y sir, ac na fydd hyn yn gwella. Rydym yn herio hyn.

Mae un o'r ffigurau yn Nhabl 1, tudalen 4, yn dangos fod Brynbuga'n perfformio ar raddfa Ailgylchu v Gwastraff Gweddillol o 47.92%, yr agosaf at hyn yw Mitchel Troy. Dyma'r ffigurau ar gyfer 2018/19. Mae'n tanlinellu'r her amlwg sef nad yw canolfannau llai'n ailgylchu'r holl wastraff a gynigir fel y canolfannau mwy. Rhoddwyd rhestr i ni o'r eitemau a ailgylchir mewn mannau eraill; mae'r rhain yn eitemau swmpus, nwyddau gwynion, rwbel. Dim ond wrth gymharu gwasanaeth cyfatebol y mae ystadegau'n ddefnyddiol – fe ddylai ffigurau Brynbuga gael eu cymharu â ffigurau'r safleoedd ychwanegol yma, dim ond wedi i'r eitemau ailgylchu ychwanegol yma gael eu tynnu o'r cyfrifiad. Fel arall, mae'r mesur sero a roddir i Frynbuga'n cael ei ddehongli fel methiant Brynbuga i'w ailgylchu, yn hytrach na'r ffaith nad oes cyfle i wneud hynny yno. Mewn geiriau eraill, mae'r gallu i ailgylchu rwbel a plastfwrdd mewn safleoedd eraill yn rhoi Brynbuga dan anfantais. Ni ddylai hyn fod, sef bod diffyg cyfleuster yn cael ei ddefnyddio i gynrychioli perfformiad gwael. Mae Adroddiad Eunomia yn mesur pob pennawd, ac wrth eithrio rwbel a phlastfwrdd yn unig, daw a Mitchel Troy i 48.52% ailgylchu gweddilliol, sydd yr un fath â Brynbuga, ac sy'n lleihau canrannau ailgylchu'r ddwy ganolfan fwy o rhwng 8 a 10% - felly cymhariaeth agosach gyda Brynbuga.

Gwelir gwastraff bwyd yn uchel yma ym Mrynbuga ond derbynnir bod hynny'n seiliedig ar samplu anghyson, ac nad yw hyn yn gynrychioliadol. Roedd y sampl yn rhu fach a gallai'r gwastraff fod wedi deillio o ddefnydd masnachol, yn hytrach na gan breswylwyr. Mae ailgylchu gwych yn digwydd ym Mrynbuga yn gyffredinol, a chaiff cyfleusterau yn yr Hwb a'r Orsaf Dân eu defnyddio ond ni chaiff y rhain eu cynnwys yn y cyfrif. Mae gennym siop stryd fawr newydd ar gyfer Sero Wastraff ac ail lenwi. Mae ymddygiad da ar draws y dref yn cael effaith negyddol

ar y tunelli a ailgylchir ond dyma'r pethau iawn i'w gwneud. Ni ddylai hyn ein rhoi dan anfantais o ran cymharu cyfrannau gwastraff gweddilliol.

Yn ôl yr hyn a ddywedir, mae ffigurau wedi gwella'n sylweddol ar draws y sir o ganlyniad i gyfnod clo Covid, sy'n golygu bod gwell ffigurau stepen drws a bod budd o systemau trefnu apwyntiadau. Ond mae rhagdybiaeth wedi ei wneud na fyddai Brynbuga'n elwa yn yr un ffordd pe byddai'n ail agor – nid ydym yn deall hyn. Dro ar ôl tro, gwneir datganiadau sy'n dweud na fydd Brynbuga'n gwella, mai dyma'r ganolfan ailgylchu a fydd perfformio waethaf yng Nghymru –caiff hyn ei ddatgan fel ffaith, ond barn yn unig ydyw. Mae gweddill yr adroddiad yn tynnu sylw penodol at lwyddiannau sydd i'w priodoli i ail-addysgu neu newid mewn ymddygiadau yn ystod Covid, gwelliannau sydd wedi eu gwneud i ailgylchu ar stepen y drws o ganlyniad i'r system trefnu apwyntiadau, ac mae'r llwyddiannau yma wedi eu gwadu i Frynbuga, gan nad yw wedi cael yr hawl i ail-agor. Nid yw'n wahanol iawn i'r tri safle arall. Wrth edrych ar y tabl, sy'n seiliedig ar arolwg y cwsmeriaid, mae'r holl eitemau gweddilliol a'r gwastraff a allai fod wedi eu casglu ar stepen y drws yn cyfrif am tua 65% o'r cyfanswm ar draws bob un o'r pedwar safle. Gall Brynbuga wella, fel y mae eraill wedi ei wneud.

Dywedir wedyn na fydd Brynbuga'n gwella ddigon; eto, rydym yn herio hyn. Mae profiad diweddar y swyddog yn dangos bod gwelliannau'n cael eu gwneud drwy addysg a'r system trefnu apwyntiadau, ac mae ein grŵp SURF newydd yn dîm newydd brwdfrydig a fydd yn effeithio ar newid. Yn wir, mae gennym rwymedigaeth i genedlaethau'r dyfodol i effeithio ar newid. Mae Swyddogion ac Aelodau o MCC wedi rhoi cadarnhad i Gyngor Tref Brynbuga na fydd Covid yn cael ei ddefnyddio fel dyfais i gau'r cyfleuster ym Mrynbuga, ond eto, drwy beidio â chaniatáu i'r cyfleuster ail agor, dyma'n union sy'n digwydd. Mae'r ganolfan wedi cau er mwyn cynnal ymgynghoriad pellach ar y ddarpariaeth CAGC, ac ar gyfer dadansoddiad cyfansoddol ychwanegol o ffrydiau gwastraff. Nid yw hyn wedi digwydd oherwydd Covd a'r cyfnod clo, ond mae Brynbuga yn parhau ar gau.
Nid ymgynghoriad ar lefel sir gyfan yr oedd aelodau'r Cyngor Tref yn ei ddisgwyl yn dilyn cyfarfodydd gyda MCC. Yr hyn a ddisgwyliwyd oedd arolwg ym Mrynbuga. Dim ond 959 o atebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad a wnaed, a digwyddodd yr ymgynghoriad rhwng canol Mawrth a chanol Ebrill, pan oedd pawb yn sigledig oherwydd effaith y cyfnod clo a'r pandemig. Gan bod pethau bellach yn symud yn eu blaen o ran y Cyngor Tref a'r grŵp SURF, byddai modd i ni gael ymatebion gwell, sydd wedi eu targedu, a defnyddio'r cyfle hwnnw i addysgu pobl ynglŷn â'r hyn y gellir ei ailgylchu a pha welliannau y bydd defnyddio stepen y drws yn arwain atynt. Nid oedd 75% o'r bobl a ymatebodd eisiau gweld canolfannau'n cau. Canfyddiad yn unig a roddodd yr ymgynghoriad, ond roedd y canfyddiad yma'n debyg ar draws y pedair canolfan ailgylchu: sef bod 65% o'r gwastraff yn cynnwys deunydd y gellid ei gasglu ar stepen y drws. Nid oedd Brynbuga ddim gwaeth. Ymatebodd llawer mwy i'n deiseb a chysylltu gyda SURF. Peidiwch ag anwybyddu'r trigolion os gwelwch yn dda. Ymatebodd yn agos at 2000 o bobl i'r ddeiseb. Mae dros 540 o lythyrau personol yn cefnogi'r cyfleuster wedi eu derbyn. Ac mae mwy'n cyrraedd. Hyn oll mewn cyfnod byr iawn.

Mae teimlad sy'n cael ei gyfleu yn adroddiad Christine Wilkinson, bod Brynbuga'n darged, dro ar ôl tro, o ran cael gwared â gwasanaethau. Gadewch i ni wneud achos gyda'n gilydd i gadw'r

cyfleuster ar agor. Roedd yr adroddiad yn annelwig ar y pwynt yma, ond gadewch i mi leisio'n eglur mai'r ymateb llethol gan y dref a'r ardal gyfagos yw y dylai'r cyfleuster aros ar agor. Mae'r grŵp gweithredu SURF yn gwbl ymroddedig i achub y cyfleuster. O ganlyniad i'r cynnydd o ran ailgylchu sydd wedi ei weld yn ystod covid, ac o herwydd yr oedi o ran caffael, mae gan MCC amser i roi amser i SURF a'r Cyngor Tref gynnal ymgynghoriad wedi ei dargedu a gwneud gwelliannau. Gofynnwn i MCC i ohirio cau'r ganolfan, fel y cytunwyd yn flaenorol, er mwyn rhoi amser y tu allan i'r cyfnod clo i gynnal ymgynghoriad priodol, a hynny tra mae'r ganolfan ar agor – fel arall, mae Covid wedi ein hamddifadu o'r cyfle i ddangos newid. Mae gan MCC'r gallu i gadw cyfleuster sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr, yng nghefn gwlad Sir Fynwy, ar agor. Mae'n hybu ailgylchu ar lefel y gall pawb ei werthfawrogi ac mae'n deall bod gweithredoedd dydd i ddydd yn cyfrif ac yn gwneud gwahaniaeth. Eto, mae MCC eisiau ei gau, heb roi'r un cyfle i ni ag y mae lleoliadau eraill o fewn y sir wedi eu cael, a chaniatáu'r newid byd y mae Covid wedi ei greu i weithio a chreu manteision. Gallai'r newidiadau positif o ran ymddygiadau sydd wedi eu gweld mewn mannau eraill helpu yma hefyd.

Mae'r adroddiad yn nodi bod gostyngiad enfawr wedi bod o ran ymwelwyr, gan fod y system trefnu apwyntiadau bellach yn ei lle, o'i gymharu â 2019, gan fod mwy o ailgylchu'n digwydd ar stepen y drws. Does dim yn awgrymu nad dyma fyddai'r sefyllfa ym Mrynbuga hefyd. Mae'r adroddiad wedi tynnu sylw at y negyddol, ond fe hoffwn droi hyn ar ei ben a thynnu sylw at y positif: rydym yn dadlau y bydd pobl yn dod yn rhwystredig wrth fethu ag ailgylchu popeth ym Mrynbuga; mater o wybod beth y gellir ei ailgylchu yn unig yw hyn. Os yw'r system yn eglur, sef bod angen trefnu apwyntiad, yna bydd ymddygiad wedi'i ddysgu'n cymryd drosodd, a bydd pobl yn gwybod ble y dylent fynd â'u gwastraff. Nid yw'r ffaith nad yw Brynbuga'n ailgylchu rwbel a nwyddau gwynion yn reswm da i gael gwared â'r holl gyfleusterau ailgylchu eraill sydd yno. Neges glir sy'n dweud nad yw Brynbuga'n ailgylchu'r eitemau yma, ac y bydd angen bwcio mewn canolfan arall, yw'r oll sydd ei angen er mwyn lleihau tarfiad.

Crybwyllir bod 18 man parcio wedi eu tynnu o'r maes parcio oherwydd y trefniadau mynediad newydd – Mae'r Cyngor Tref yn herio'r ffigur yma, gan fod trefniadau wedi eu gwneud i fannau eraill fod ar gael. Does dim sôn am yr effaith ar y stryd fawr o ganlyniad i gael gwared â chyfleuster arall. Mae Brynbuga wedi bod yn dref hwb ar gyfer ardaloedd cefn gwlad, dro ar ôl tro mae cyfleusterau sy'n denu ymweliadau i'r dref yn cael eu herydu oddi yno, ac mae hyn yn cael effaith gan nad yw'r dref yn elwa o fwy o bobl yn ymweld â'r stryd fawr. Unwaith y mae'r cyfleusterau yma wedi mynd, mae'r adroddiad yn amlinellu pa mor anodd fydd eu hail-greu, o ran cynllunio a thrwyddedau, ac ati. Mae MCC yn haeddu cadw gwasanaethau pwysig, ac mae preswylwyr yn haeddu'r cyfle i ddangos y gellir gwneud newidiadau parhaol yma ym Mrynbuga, y mae pawb yn elwa ohonynt.

Mae'r adroddiad yn ystyried llai o ddefnydd ac ymweliadau yn bethau negyddol. Ond does yr un o'r rhain yn ddrwg, gellir rheoli'r ddau'n rhwydd, os yw hyn yn achosi problemau, drwy'r system trefnu apwyntiadau newydd. Ystyrir defnydd nad yw'n cael ei herio'n beth drwg; yn gyffredinol, rydym yn cytuno. Bydd y swyddog wedi clywed mai'r profiad a geir ym Mrynbuga, yn anad dim arall, yw nad oes neb yn gofyn i weld trwyddedau, ac nad yw'r defnydd o sgip gweddilliol yn cael ei gwestiynu na'i herio. Mae'r adroddiad yn dyfynnu ystadegau sy'n dangos

bod gwastraff traws-ffiniol yn broblem nes i drwyddedau preswylwyr gael eu cyflwyno. Os nad yw trwyddedau'n cael eu harchwilio, yna nid oes unrhyw reolaeth dros wastraff traws-ffiniol ym Mrynbuga. Dim ond pymtheg munud i ffwrdd yw Sir Casnewydd, sy'n nes nag y byddai disgwyl i breswylwyr Brynbuga deithio pe byddai'r ganolfan yn cau. Mae twristiaeth gwastraff yr un mor hawdd ym Mrynbuga ag yn y Fenni.

Rhoddir enghreifftiau mai dim ond un cyfleuster neu ddau sydd gan awdurdodau lleol eraill ar gyfer y sir gyfan, ond mae'r awdurdodau lleol a ddyfynnir yn ardaloedd adeiledig megis Caerdydd. Mae Sir Fynwy'n sir wledig. Mae ystyriaethau gwahanol yn berthnasol i siroedd gwledig os ydym am leihau effaith teithiau nad ydynt yn angenrheidiol ar ein ôl troed carbon. Gadewch i ni ystyried canolfannau ailgylchu llai, fwy lleol a fyddai'n llwyddiant, yn hytrach na chydymffurfio â'r isafswm o ran y gofyn statudol, neu'r hyn a ddarperir mewn dinas neu ardal ddaearyddol lai. Mae gan ailgylchu lleol ei le, ac os gwelwch yn dda, peidiwch ac anghofio bod Brynbuga'n dref sydd â phoblogaeth hŷn – nid pawb sydd â char. Mae tipio anghyfreithlon yn destun pryder. Mae'n ddrud i'w glirio. Does yr un ohonom yn gwybod, yn y cyfnod yn dilyn Covid, pa effaith fydd colli'r cyfleuster yma yn ei gael ar dipio anghyfreithlon.

Yr hyn yr ydym eisiau ei wneud yw pwysleisio mai casglu ar ochor y stryd yw'r ffordd fwyaf ecogyfeillgar o reoli gwastraff ac ailgylchu'r cartref, ac atgyfnerthu'r sylw a wnaed gan MCC fod peidio â defnyddio gwasanaeth casglu ar stepen y drws ar gyfer biniau du a gwastraff gweddilliol yn annerbyniol. Rydym eisiau pwysleisio bod y ganolfan yn gyfleuster ailgylchu dilys, nid tomen wastraff, a bod cael gwared â bagiau du gyda gwastraff cymysg ynddynt yn tanseilio'r mwyafrif helaeth sy'n ailgylchu'n effeithiol. Mae angen i ni wneud pobl yn ymwybodol o gosbau Llywodraeth Cymru – does neb eisiau i MCC orfod talu'r rheiny. Rydym yn nodi fod didoli cynnwys bagiau du'n ddymunol – hoffem weithio gyda'n gilydd er mwyn gweld sut y gallwn gyflawni hyn ym Mrynbuga, er mwyn casglu mwy o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu. Yr hyn yr hoffem i'r Cyngor ei wneud yw gwirio trwyddedau – er mwyn rhoi stop ar ddefnydd traws-ffiniol – stopio gwastraff masnachol, ein cefnogi gydag addysg a systemau trefnu apwyntiadau, ac yna, yn yr un modd â phawb arall: adolygu mesurau arbed costau megis oriau llai yn ystod y gaeaf ac ar benwythnosau, caniatáu i'r arbedion sy'n cael eu creu drwy'r dyddiau llai i gael effaith ar gostau. Yn olaf, peidio gadael i Covid fod y rheswm yr ydym wedi cau, am mai gwneud dim oedd yr opsiwn. Gweithio gyda ni i ail-agor, a rhoi amser i ni wneud newid.

Nid yw cau nawr, ar ôl cyfnod clo, yn rhoi'r cyfnod wedi'i ohirio a addawyd, ac mae'n gwbl bosib – yn wir, yn debygol – y bydd y manteision a'r newidiadau positif o ran ymddygiadau sydd wedi eu gweld yng ngweddill y sir yn cael eu gweld ym Mrynbuga hefyd. Dylem ninnau hefyd gael y cyfle i elwa o'r tro pedol o ran ailgylchu ar draws y sir o ganlyniad i ymgyrch effeithiol a negeseuon am ailgylchu, a mesurau cau oherwydd covid. Gweithiwch gyda ni os gwelwch yn dda, yn yr un ffordd ag yr ydych yn gweithio gyda chyfleusterau eraill er mwyn gwella'r cyfraddau ailgylchu. Gwnewch argymhelliad y dylid ail-agor Brynbuga er mwyn i ni allu gweithio gyda'n gilydd a chael y cyfnod wedi'i ohirio ac ymgynghoriad. A chefnogwch y dref hon sydd wrth galon Sir Fynwy os gwelwch yn dda."

3. **<u>Craffu cyn penderfynu ar Ddarpariaeth Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn y Dyfodol (gan gynnwys Brynbuga).</u>**

Cyflwynodd y Swyddog Carl Touhig yr adroddiad.

**Her:**

*A yw'r arbedion o ran staff, llai o oriau a chau yn ystod y dydd yn cynnwys Brynbuga?*

Mae'r arbedion sy'n deillio o gau yn ystod y dydd a lleihau oriau ac eithrio Brynbuga – nid yw wedi ei gynnwys yn y ffigurau yma. Mae cau Brynbuga'n creu arbediad o £40 mil ynddo ei hun; Mae'r arbediad o £240k ar gyfer cau am ddiwrnod a lleihau'r oriau wedi ei seilio ar y tri safle arall.

*A yw'r £40 mil ar gyfer y flwyddyn ariannol yma yn unig, neu bob blwyddyn?*

Mae'n arbediad a fyddai'n cael ei wneud yn ystod y flwyddyn hon. Ar hyn o bryd mae'r safle ar agor 5 diwrnod yr wythnos (50 awr yr wythnos) ac mae 2 aelod o staff ar y safle. Mae'r arbediad yn deillio o hyn – yn fras £20 mil yr aelod o staff. Gan fod y ganolfan wedi cau ar hyn o bryd oherwydd y pandemig, mae'r staff dan sylw'n gweithio yn rhai o'r canolfannau mwy er mwyn helpu i reoli'r ymateb i Covid. Mae Viridor wedi cytuno i roi £40 mil i ni eleni, ar yr amod bod y safle'n aros ynghau, oherwydd byddent wedyn yn mynd yno ac yn clirio'r sgipiau, mynd a'r offer swyddfa oddi yno, ac ati. O'n safbwynt ni, arbedion o ran staff a wneir eleni; nid ydym yn gwybod beth fydd yr arbedion y flwyddyn nesaf, ond byddwn yn cymryd y byddem yn bendant yn arbed £40 mil y flwyddyn nesaf hefyd, heb 2 aelod o staff ar y safle am 50 awr. Bydd peidio â symud sgipiau o Frynbuga i Llan-ffwyst yn arbed mwy o arian fyth. Nid wyf yn gwybod beth fyddai cyfanswm y swm a arbedir, ond byddwn yn disgwyl iddo fod o gwmpas £60 mil y flwyddyn nesaf os yw Brynbuga ar gau.

*Beth yw'r ateb i bryderon y byddai cau'r safle'n cynyddu traffig ac yn cynyddu'r teithiau y byddai angen eu gwneud ar draws Sir Fynwy, yn enwedig o ran nod Dyfodol Gwyrdd y Cyngor?*

Gellir lleihau'r pellter y mae pawb yn ei deithio drwy ddefnyddio'r gwasanaeth casglu ar stepen y drws. Mewn ymateb i'r ddadl o ran llygredd yn yr aer a charbon, gwasanaeth casglu ar stepen y drws yw'r ffordd orau ymlaen. Mae hyn yn atal llygredd, ac yn osgoi'r angen i unrhyw un orfod teithio i unman. Mae problem yn barod ym Mrynbuga o ran llygredd aer yng nghanol y dre – ac felly mae angen gofyn y cwestiwn ai priodol, cyn covid, oedd dod â 170 a mwy o geir a loriau mawr drwy Frynbuga bob dydd er mwyn gwasanaethau'r safle, a chynyddu'r broblem.

*A oes datrysiad 'hanner ffordd' wedi ei ystyried ee cael safle mewn man arall, efallai ym Maes Parcio'r Cyngor Sir, a allai ddefnyddio CCTV ac o ganlyniad beidio bod â staff ar y safle?*

Bu i ni edrych ar symud cyfleuster Brynbuga i leoliad arall yn y dref, ond nid yw pobl eisiau safleoedd gwastraff wrth eu hymyl. Nid wyf wedi fy narbwyllo y byddem yn cael caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleuster gwastraff ar safle Rhadyr, na safle riverside, o ystyried y perygl o lifogydd. Nid yw safleoedd eraill wedi bod yn boblogaidd ym Mrynbuga, megis y safle AD ychwanegol a safle Biomass, ymysg eraill, felly mae'n annhebygol y bydd cyfleuster gwastraff arall yn cael caniatâd cynllunio, ac mae angen trwyddedau ar ben hynny. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru, heb os, yn edrych ar y perygl llifogydd o ran agor cyfleuster arall unrhyw le ym Mrynbuga. Heddiw, pe byddem yn ceisio agor safle Brynbuga ar ei safle presennol, rwyf o'r farn na fyddem yn cael caniatâd cynllunio ar gyfer safle sydd mor agos at gartrefi preswylwyr mewn parth llifogydd.

*Beth yw'r ystyriaeth o ran effaith fwyaf – sef effaith cau'r ganolfan ar breswylwyr hŷn?*

Mae nifer cynyddol o henoed ar draws Sir Fynwy, ac rydym yn deall bod angen i ni weithio gyda phawb ar draws y sir. Nid ein bwriad yw anwybyddu'r henoed. Y gwasanaeth stepen drws cynhwysfawr yw'r ffordd orau i'r henoed ddelio â'u gwastraff. Mae nifer o ymholiadau wedi dod i lawr drwy ddirprwy, yn gofyn sut y bydd yr henoed yn cael eu gwastraff i'r safle os nad ydynt yn gallu gyrru, ond nid ydym yn gweld nifer o henoed yn cerdded i'r safle presennol. Rydym bob amser yn ceisio gwella'r gwasanaeth stepen drws, a nifer y deunyddiau y gallwn eu casglu, ond mae'n rhaid i bobl ei ddefnyddio.

*Os mai casglu ar stepen drws yw'r unig ffordd ymlaen, faint o waith sydd wedi cael ei wneud ar gynyddu'r hyn y gellir ei ailgylchu ar stepen drws? Beth am well addysg?*

Wrth i bobl ddechrau defnyddio'r gwasanaeth stepen drws fy fwy ar gychwyn y pandemig, gwelsom ailgylchu'n cynyddu'n sylweddol – mae hyn angen parhau, ac mae agen i ni ddal ati i rannu'r neges mai ailgylchu priodol ar stepen y drws yw'r ffordd orau ymlaen. Yn bersonol, fel preswylydd yn Nhorfaen, os wyf yn ymweld â chyfleuster yno unwaith y flwyddyn, mae hynny unwaith yn ormod. Nid wyf yn gweld pam y dylai mwyafrif o bobl ddefnyddio'r cyfleusterau mor aml â hynny, eto mae 71% o breswylwyr Brynbuga sydd ar y safle, yno unwaith yr wythnos. Os yw'r lefel yma o wastraff o ddifri yn cael ei greu, mae angen llunio ymgyrch addysg wahanol – un sy'n awgrymu lleihau'r swm sy'n cael ei brynu er mwyn lleihau'r swm sydd angen cael gwared ag o maes o law. Fe ddylai'r neges ymwneud â lleihau gwastraff, yn hytrach na chanolbwyntio ar safleoedd.

*Os yw'r safle'n wael, pam nad oes dim wedi ei wneud ynghynt, cyn i ni gyrraedd y pwynt argyfwng yma?*

Nid ydym wedi gadael i Frynbuga gyrraedd pwynt argyfwng. Rydym wedi bod yn ymwybodol o'r gwaith sydd ei angen yno ers sbel, ac rydym wedi buddsoddi yn y safle'n barod er mwyn ei gadw ar agor. Mae wastad wedi perfformio'n wael, ac gan fod gweddill Sir Fynwy'n perfformio'n dda, mae hyn wedi gallu cario Brynbuga. Gwnaethom waith archwilio ar y safle gyda Eunomia yn 2018, ac fe dynnwyd sylw at y broblem o ran y dreiniau. Rhoddwyd

adroddiad ynghyd yn 2019 a oedd yn cynnig cau'r safle. Mae materion megis y rhain yn cymryd amser i'w prosesu. Nid oedd pwynt argyfwng, ond mae pawb arall yn gwneud mwy. Roeddem yn wynebu dirwyon posib o hyd at £120 mil y llynedd, ac roedd angen i ni wneud penderfyniadau ynglŷn â sut y byddem yn gwella cyfraddau ailgylchu – dyma pryd y rhoddwyd ystyriaeth i gau Brynbuga.

*Rydym yn defnyddio Viridor ar ein safleoedd. Pan wnaeth Torfaen y gwasanaeth hwn yn un mewnol, gwnaethant arbediad o £167,000 y flwyddyn – a roddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd yma?*

Roedd Viridor yn gweithredu cyfleuster crynhoi'r gwastraff stepen drws yn Nhorfaen, a gwnaeth y Cyngor y gwasanaeth yn un mewnol unwaith eto. Caiff canolfannau ailgylchu gwastraff cartref Torfaen eu rhedeg gan FCC, cwmni tebyg  Viridor. Felly, nid oedd hyn mor syml â'r chymryd y gwasanaeth yn ôl – roedd y gwasanaeth yr oeddynt yn ei redeg yn un gwahanol iawn. Rydym wedi edrych ar wneud y gwasanaeth yn un mewnol yma fel rhan o'r broses tendro, ac rydym yn eithaf hapus i ystyried hynny os y teimlwn y gallem redeg y gwasanaeth yn fewnol am yr un gost â'r costau a geir yn y tendrau sy'n dod yn ôl.

*Gan fod gwastraff gardd yn effeithio ar bawb yn y sir, ond fod cau canolfan Brynbuga'n effeithio trigolion Brynbuga'n unig, does bosib nad oes modd cymharu nifer yr ymatebion.*

Rwy'n gobeithio fy mod wedi gwneud cyfiawnder ag ymatebion Brynbuga – roeddynt yn niferus ac rwyf wedi ateb bob un ohonynt.

*O ran y boblogaeth hŷn, mae'r pwynt o ran gwell ailgylchu ar stepen y drws wedi cael ei nodi, ond mae rhai pethau, o hyd, na ellir eu hailgylchu a bydd angen mynd â hwy i ganolfan – bydd poblogaeth hŷn yn cael hyn yn anodd, ac mae'r gyfran o boblogaeth Brynbuga sy'n hŷn, yn uwch na dyweder Cas-gwent.*

Mae demograffeg hŷn ym Mrynbuga, ond dylid defnyddio'r cyfleusterau stepen drws i'w cefnogi. Roedd llawer o'r llythyrau a dderbyniwyd gan bobl hŷn, a oedd yn dweud eu bod yn defnyddio'r safle bob dydd. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw annog gwell defnydd o'r cyfleusterau stepen drws, a symud y preswylwyr i ffwrdd oddi wrth ddibynnu ar y safleoedd yma, yn enwedig gan fod safle Brynbuga'n perfformio mor wael, o ran nifer y bagiau du sy'n mynd yno. Bydd angen i breswylwyr Brynbuga deithio mwy i safleoedd eraill, ond nid os ydynt yn defnyddio'r system stepen drws. Mae rhai deunyddiau na ellir eu hailgylchu ar stepen y drws, ond rydym yn cynnig opsiynau eraill: Bydd Homemakers yn dod i gasglu tri eitem swmpus am £15, sy'n gynllun da iawn.

*Mae Cyngor Tref Brynbuga, bob amser, wedi unioni diffygion o ran costau wedi iddynt gael gwybod gan MCC bod problem ee yr Hwb, Swyddfa'r Post, adnewyddiadau ac ati. Oni ddylid rhoi'r cyfle iddynt newid y sefyllfa yma hefyd?*

Nid oes trafodaeth wedi bod gyda Chyngor Tref Brynbuga ar rannu'r costau, ac nid ydynt wedi cynnig rhannu'r costau, hyd y gwn i. Nid yw hyn yn ymwneud â chost rhedeg y cyfleuster yn unig; mae'n ymwneud â chyrraedd ein cyfraddau ailgylchu. Ar gyfer y gwastraff sy'n mynd i mewn i Frynbuga, os ydym yn methu ein targedau o'r un cyfran o wastraff, byddwn yn talu dirwyon o bron i £200 mil. Nid wyf yn siŵr sut y byddai'r costau yma'n cael eu rhannu gyda Chyngor Tref Brynbuga – nid y gost o £40 mil, cost weddol isel, sydd o dan sylw yma, ond y dirwyon posibl hefyd.

*O ran costau anghymesur, does bosib na ellir cymharu Brynbuga gyda chanolfannau trefol, gan fod y ganolfan yn un fwy gwledig.*

Nid yw Five Lanes yn safle trefol, mae'n safle gwledig sy'n gwasanaethu ardaloedd trefol. Mae preswylwyr ardaloedd trefol (Cil-y-coed a Chas-gwent) yn teithio i Five Lanes, sy'n gymharol wledig. Wrth orfod gwneud hynny, maent yn meddwl am y gwastraff y maent yn ei roi yno, ac yn ailgylchu mwy. Dyma'r data sydd gennym. Ym Mrynbuga, mae pa mor hawdd yw cael mynediad at y safle, yn gyrru ymddygiad gwael. Mae'r safle'n rhu fach hefyd, ond mae nifer uwch o finiau du yn cael eu cario i'r safle na fyddem yn ei weld yn Five Lanes.

*Mae cyfran y Bagiau Du ym Mrynbuga yn 25%, sydd yr un fath â safleoedd eraill, yn yr un modd, cyfradd y gwastraff gardd yw 30%, felly pam fod y niferoedd yn broblem benodol ym Mrynbuga?*

Mae'r siart sy'n dangos y ffigurau yma'n dangos canfyddiadau preswylwyr o'r hyn y maent yn ei gario i'r safle. Nid yw'r niferoedd yn adlewyrchu'r hyn a dderbynnir ar y safle mewn gwirionedd. Mae nifer llawer uwch o fagiau du'n cael eu cario i Frynbuga na'r 25% a dybir gan breswylwyr. Y data mewn gwirionedd, yw bod 53% o wastraff Brynbuga'n Fagiau Du. Rydym wedi cytuno, ac rydym ar fin cyflwyno, system didoli bagiau du ar yr holl safleoedd, a byddai hyn yn cynnwys Brynbuga pe byddai'n aros ar agor. Byddai hyn yn rhywbeth anodd iawn i'w wneud yn Mrynbuga, gan fod diffyg cyfleusterau yno i gymryd y deunydd a'i roi yn rhywle arall. Mae hyn yn bryder mawr wrth ystyried didoli bagiau du.

*A yw'n bosib cael daliedydd ar gyfer eitemau trydanol bychan ym Mrynbuga?*

Mae rhai o'r archfarchnadoedd mwy wedi cynnig cymryd eitemau trydanol bach; gallem edrych ar p'unai y gellir gwneud hyn ym Mrynbuga. Yr anhawster o ran cyfleusterau ailgylchu heb staff ynddynt yw eu bod yn denu llawer o dipio anghyfreithlon. Dyma pam y cafwyd gwared arnynt ar y cychwyn. Gwelwyd hefyd dannau bwriadol yn cael eu cynnau ar rai o safleoedd Torfaen. Ond gallem edrych ar gael bin Gwastraff Trydanol bach ym Mrynbuga.

*Gan bwysleisio y gallai preswylwyr Brynbuga ddefnyddio'r cynllun gwastraff gwyrdd newydd, beth yw'r ymateb i breswylwyr hŷn sy'n bryderus am allu symud bin ag olwynion arno?*

Roedd peth dryswch yn amlwg yn yr ymatebion i'r arolwg ein bod yn cyfyngu'r cynllun gwastraff gardd – nid dyma'r sefyllfa. Rydym yn edrych ar opsiwn gwahanol hy biniau yn hytrach na bagiau.

*A yw gwastraff gwyrdd yn helpu o ran targedau ailgylchu? Os felly, pe byddem yn cau Brynbuga, a fyddai hyn yn cael effaith arnynt?*

Mae gwastraff gwyrdd yn cyfrannu at ein targedau, boed trwy'r CAGC neu'r cynllun stepen drws.

*A ellid, yn syml, gwrthod bagiau du, fel sy'n digwydd yng Nghrughywel er enghraifft?*

Mae'r safleoedd ym Mhowys yn derbyn amrywiaeth o ddeunyddiau domestig y gellir eu hailgylchu – papur, caniau, poteli plastig, ac ati. Yr ydym ni'n eu casglu ar stepen y drws. Mae Powys bellach yn casglu mwy ar stepen y drws hefyd, ac o ganlyniad maent wedi lleihau nifer y safleoedd. Maent wedi cael gwared â sgipiau heb staff o'r safleoedd heb staff ynddynt oherwydd y camddefnydd ohonynt.

*Rwy'n amau y byddai angen caniatâd cynllunio arnom ar gyfer safle arall?*

Gallwn edrych ar Safleoedd dod â gwastraff. Nid oeddwn yn awgrymu'n gynharach y byddai angen caniatâd cynllunio arnom ar gyfer y rhain, er mae'n debygol y byddai. Roeddwn yn awgrymu y byddai, yn bendant, angen caniatâd cynllunio ar gyfer canolfan ailgylchu lawn a thrwydded gan CNC. Nid yw hyn yn awgrymu na allem gael biniau bychain neu sgipiau fel oedd yn yr archfarchnadoedd gynt – mae'n debygol y gallem wneud rhywbeth gyda'r syniad yna. Fodd bynnag, dim ond deunyddiau y gellir eu rhoi allan i'w casglu ar stepen y drws ar hyn o bryd y byddai'r rhain yn eu cymryd. Felly, byddai'n well gennym wthio pobl i wneud mwy o ddefnydd o'r system honno, yn enwedig gan fod safleoedd dod â gwastraff yn achosi problemau o ran tipio anghyfreithlon.

*Mae'r £30 mil rhagdybiedig ar gyfer diweddariadau yn eitem gyfalaf, ac nid ydyw, felly, wedi ei gostio mewn un flwyddyn, ond caiff ei wasgaru dros y blynyddoedd y mae'n dibrisio – felly gallai'r swm fod cyn ised â £5 pe byddai'n cael ei rannu dros 6 mlynedd?*

Mae hyn yn gywir: mae'n arian cyfalaf y gellir ei rannu dros nifer o flynyddoedd. Diben yr adroddiad yw pwysleisio bod angen gwario'r swm yma'n gyffredinol, heb ystyried sut y caiff y gwariant ei wneud.

*Nodir £40 mil fel y gost flynyddol, ond yn barod rydym hanner ffordd drwy'r flwyddyn hon, felly dim ond arbediad o £20 mil a fyddai'n cael ei wneud mewn gwirionedd yn y flwyddyn bresennol pe byddai'r safle'n cau ar unwaith.*

Cytunwyd ar £40 mil gyda Viridor. Pe byddai'n rhaid i'r safle gau, byddent yn rhoi arbediad o £40 i ni eleni, heb ystyried pryd yn ystod y flwyddyn y byddai'r ganolfan yn cau. Wrth i ni

agosáu at ddiwedd y flwyddyn, yn amlwg y bydd hyn yn newid, a ni fydd Viridor yn pasio'r costau dan sylw yn ôl i ni. Gan fod Brynbuga'n ganolfan mor fach, ni fyddem yn argymell ei bod yn ail- agor ar hyn o bryd gan fod Covid yn parhau – nid oes modd i ni reoli'r safle a rheoli diogelwch o ran Covid. Rwy'n deall bod pobl yn dweud y dylid rhoi cyfle i Frynbuga wella, ond heb os, ni fyddai swyddogion yn argymell ail-agor safle Brynbuga yn ystod y pandemig.

**Sylwadau cyffredinol y Cynghorwyr:**
Y Cynghorydd Laura Jones: Yn ddaearyddol, addas yw cael mwy nag un canolfan ailgylchu yn Sir Fynwy; diolch i'r Cyngor mae gennym fwy nac un yn y sir, ond dylem gofio mai priodol yw hyn. Byddai cau Brynbuga'n cael yr effaith fwyaf ar yr henoed, ac i'r rheiny sy'n gallu teithio, bydd yn cynyddu'r traffig a faint o deithio sy'n digwydd ar draws Sir Fynwy. Er mai priodol yw nodi bod pawb arall yn gwneud hyn, nid yw'r ffaith y byddai angen i Frynbuga wneud hyn hefyd yn gwella'r sefyllfa. Felly mae gennyf bryderon yn hyn o beth. Mae'r ymddygiadau o ran casglu ar stepen y drws wedi gwella'n ystod y pandemig. Mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i annog hyn. Roedd llawer o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yn dangos bod mwy o addysg ei angen – rwy'n cytuno bod hyn yn rhywbeth y mae angen i'r pwyllgor a'r cyngor edrych i mewn iddo ar gyfer safleoedd eraill, hyd yn oed os nad yw hyn yn cynnwys Brynbuga wrth symud ymlaen. Rwy'n rhannu'r pryderon fod diogelwch Brynbuga'n is na'r safon a ddisgwylir, a bod angen £30 mil er mwyn gwneud gwelliannau, gellir cynyddu'r mannau parcio er enghraifft. Yn bendant mae ffactorau o blaid cau. Ond, mae wedi dod i'r amlwg, er fod casglu ar stepen y drws yn cynyddu, nid yw'r preswylwyr yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Y Cynghorydd Batrouni: Ydi, mae Five Lanes yn safle gwledig, ond mae'n gwasanaethu poblogaeth drefol, ac felly mae'r ddemograffeg a'r defnydd, rwy'n cymryd, yn wahanol. Wrth gwrs, mae angen i Brynbuga wella, ond mae'r preswylwyr yn gofyn am amser i wneud y gwelliannau yma, gan weithio ar y cyd â Chyngor y Dref - mae'n ymddangos fod y neges yn cael ei hanwybyddu. Hoffwn i'r pwyllgor hwn gael golwg ar y cynllun busnes o ran dod â chostau'n fewnol, pan fydd yn barod. Yn ôl pob sôn, llwyddodd Torfaen i haneru eu costau wrth wneud hynny – byddai arbediad cyfwerth yn un sylweddol i MCC, a byddai hyn yn helpu o ran unrhyw gynllun busnes ar gyfer Brynbuga. O ran y dirwyon posibl a drafodwyd, byddai unrhyw ddirwy'n cael ei chyflwyno i'r sir gyfan, ac ni fyddai'n berthnasol i Gyngor Tref. Dylid cael trafodaeth gyda Cyngor Tref Brynbuga ynghylch rhannu'r costau gweithredu o £30 mil, a chostau cludo ychwanegol o £60 mil. Rwy'n cynnig, yn unol â ffocws y Cabinet ar wasanaethau lleol, ein bod yn rhoi mwy o amser i Frynbuga, gan roi gwybod i breswylwyr am y problemau a gofyn am gynllun ymarferol, dichonadwy er mwyn rhoi'r hyn sydd ei angen ar waith.

Y Cynghorydd Easson: Nid yw'n ymddangos fod gennym fesurau monitro digonol yn eu lle o ran bagiau du yn unrhyw un o'n safleoedd. Rwy'n cytuno gyda'r Cynghorydd Batrouni y dylem adolygu'r mater yn ystod y cyfnod nesaf, yn hytrach na gwneud penderfyniad heddiw. Pe byddem yn monitro'r sefyllfa yn agosach, efallai y byddai Brynbuga'n diweddu mewn sefyllfa well nac y mae ynddi ar hyn o bryd. Mae parcio ceir yn broblem, ond dylem edrych ar sut y gallwn ddefnyddio Brynbuga mewn ffordd well. Efallai y dylem hefyd edrych ar nifer y dyddiau

y gallai fod ar agor, ac annog pawb – yn yr holl safleoedd – i beidio â gadael bagiau du yno. Hoffwn weld arolygon pellach yn cael eu gwneud a mentrau'n cael eu cymryd. Rwy'n meddwl bod cynnwys ffigurau yn yr adroddiad nad ydynt yn ffeithiol, ond sy'n cynrychioli argraff pobl, yn achosi dryswch. Nid oes gennyf broblem o ran lleihau'r oriau o 8-4 ond hoffwn i hyn gael ei ail-asesu ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Rwyf hefyd yn hapus gyda chau Five Lanes a Llan-ffwyst am ddiwrnod ychwanegol, ac yn hapus i eitem E fynd yn ei blaen.

Y Cynghorydd Webb: Rwy'n diolch i'r swyddogion am lunio'r adroddiadau a'r deunydd darllen manwl yma. Rwy'n awgrymu, pe byddai bin Gwastraff Trydanol yn cael ei osod ym Mrynbuga, y byddai preswylwyr yn monitro'r defnydd ohono er mwyn sicrhau na fyddai'n cael ei gamddefnyddio.

Y Cynghorydd Smith: Mater sy'n ymwneud ag arian yw hwn. Os y bydd y gwasanaeth yma'n parhau, am gost o £40 mil, mae angen i'r aelodau ystyried o ble y bydd yr arian hwn yn dod hy o ba wasanaeth arall y bydd yr arian yn cael ei gymryd. Ac yn bendant, nid oes modd cynnal y gwasanaeth yn ei gyflwr presennol. Mae nifer o broblemau. Roeddwn yn hoffi rhesymeg Alison y byddai Treth Cyngor 20 o gartrefi ym Mrynbuga yn talu am gost y safle, ond rydym yn darparu nifer o wasanaethau eraill gyda'r dreth honno. Eithaf diddorol yw ystyried beth y mae pobl yn ei roi mewn bagiau du mor rheolaidd. Mae'r anallu i ddidoli ym Mrynbuga'n bwynt pwysig – mae'r safle wedi ei gyfyngu i raddau helaeth. Dylem nodi hefyd fod gan Torfaen fynediad at arian grant sydd ddim ar gael i Sir Fynwy. Mae Torfaen yn dangos sut y dylid ailgylchu, a byddwn yn annog aelodau i fynd i weld sut y mae gwahanu a didoli eitemau'n cael ei wneud yn iawn. Mae gennyf bryderon cryf ynghylch cael gwared â'r sgip o safle Brynbuga; o ystyried lleoliad y maes parcio a'r strydoedd bychan, mae'n beryglus ac yn llygru. Mae'n colli unrhyw wasanaeth yn anffodus ond mae angen i ni edrych tua'r dyfodol, gan gynnwys y pwynt positif o gael mwy o fannau parcio – Rwyf wedi methu â dod o hyd i fan parcio lawer gwaith wrth ymweld â'r meddyg.

Y Cynghorydd Howarth: Mae gennyf ofn 'tincro' gyda gwastraff, a goblygiadau cael gwared â safle, yn enwedig o ran targedau ailgylchu, yn ogystal â'r goblygiadau o ran coelcerthi a llosgi gwastraff. Mae safleoedd llwyddiannus yng Nghryghywel a Llangynidyr nad ydynt yn cymryd bagiau du, efallai y gellid cadw Brynbuga yn yr un modd. Rwy'n credu fod angen i ni ymchwilio ymhellach, gan edrych ar a allai Cyngor Tref Brynbuga ddarparu rhai o'r cyfleusterau yma.

Y Cynghorydd Powell: Rwy'n cefnogi'r hyn a ddwedwyd gan y Cynghorydd Smith. Fy mhrif bryder yw nid rhoi stop ar unrhyw beth, ond bod â chyfleuster gwastraff sydd ar gyrion maes parcio, nid yw hyn yn teimlo'n ddiogel nac yn iawn. Mae'n ymddangos y byddai cael safle dod â gwastraff yn rhywle arall yn fwy diogel. Mae'r un nifer o bobl hŷn yn y Fenni, ac fel preswylwyr yn y Fenni, dim ond unwaith neu ddwywaith y flwyddyn yr ydym yn mynd i safle ailgylchu. Gallwn ailgylchu popeth sydd ei angen arnom ar stepen y drws. Yn wir, ni all nifer o henoed yrru, ond does bosib ei bod yn fwy diogel iddynt ddefnyddio gwasanaeth stepen y drws.

Y Cynghorydd Clarke: Roedd cyflwyniad Alison yn dda iawn, ac yn yr un modd roedd ymatebion y swyddogion yn dda iawn hefyd. Fel Awdurdod, bydd angen i ni wario £150 miliwn eleni – er gwaethaf Covid – felly nid wyf yn meddwl y dylai dod o hyd i'r swm sydd ei angen fod y tu hwnt i'n gallu er mwyn sicrhau bod y safle'n parhau ar agor. Byddwn yn annog y cyngor i ddefnyddio synnwyr mathemategol a synnwyr ymarferol i ddatrys y mater hwn. Dylid rhoi cyfle i Frynbuga wella, ac os nad yw'n gwella, yna byddai'n haeddu cau.

Y Cynghorydd Groucott: Mae'r dadleuon sydd wedi eu cyflwyno gan breswylwyr Brynbuga wedi creu argraff arnaf, ac o ganlyniad byddwn yn cefnogi'r syniad o ddod o hyd i ffordd ymlaen gyda hwy er mwyn gwarchod y cyfleuster. Mae teithio i safle mewn man arall yn awgrymu y byddai amser yn cael ei roi yn y cyfleusterau eraill i'r traffig ychwanegol, ond mae'r adroddiad hefyd yn dweud y byddai'r amser mewn safleoedd eraill yn lleihau. Nid yw hyn yn gwneud llawer o synnwyr i mi. Rwy'n meddwl ei fod yn dangos mai'r bwriad yw cwtogi'r gwasanaeth, yn hytrach na'i wella.

Y Cynghorydd Thomas: Rwy'n cefnogi'r hyn y mae'r Cynghorydd Groucott a'r Cynghorydd Batrouni wedi ei ddweud. Yn Seminar yr Aelodau, roeddwn yn fwy amheus ynglŷn â safle Brynbuga, a gallaf ddeall pryderon y swyddogion, ond gwnaeth Brynbuga achos cryf iawn heddiw. Mae nifer o ymatebion wedi dod i law, ac mae'n amlwg bod y Cyngor Tref o blaid cadw'r cyfleuster ar agor mewn un ffurf neu'i gilydd. Os yw'r preswylwyr a'r Cyngor Tref eisiau ymuno mewn menter ar y cyd, o rhyw fath, er mwyn rhoi cymhorthdal i'r cyfleuster, yna eu dewis hwy yw hynny. Gobeithiaf mai gwir ymgynghoriad yw hyn heddiw. Rwy'n cytuno gyda'r Cynghorydd Clarke nad yw'r arian sydd dan sylw'n swm enfawr – dylem edrych arno, a pheidio â gwneud penderfyniad byrbwyll. Mae'n ymddangos mai dyma sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl bod angen ailystyried.

Y Cynghorydd Woodhouse: Rwyf wedi cael fy synnu fod y preswylwyr yn gweld eisiau'r cyfleuster tra mae ar gau dros dro. Hoffwn weld ystyriaeth yn cael ei roi i rhyw fath o gyfleusterau heb staff ynddo wrth i ni wynebu'r argyfwng yma, ac yn y dyfodol. Rwy'n siŵr y gallai trigolion Brynbuga fonitro cyfleuster o'r fath eu hunain er mwyn atal camddefnydd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Rydym wedi ystyried y gyfradd ailgylchu isel ym Mrynbuga, ac wedi clywed mai dyma'r safle sy'n perfformio waethaf yng Nghymru. Rydym yn deall safbwynt Cyngor Tref Brynbuga, ond nid yw'n safle da: mae'n rhu fach ac mae pryderon o ran iechyd a diogelwch. Rydym wedi dadansoddi cyfansoddiad y gwastraff. Gwelir ymweliadau rheolaidd yn cael eu gwneud i'r safle er mwyn cael gwared â bagiau du y gellir eu hailgylchu ar y stepen drws. Mae'r gwastraff yn cynnwys gwastraff bwyd. Mae pryderon y gymuned wedi tynnu sylw at dipio anghyfreithlon; ni ddylid gwneud esgusodion dros hyn, ac ni ddylai cau'r safle roi'r argraff fod tipio anghyfreithlon yn dderbyniol, ond, at hyn, ni ellir defnyddio tipio anghyfreithlon fel esgus dros beidio gwneud y newidiadau arfaethedig. Roedd y pellter y byddai'n rhaid teithio yn bryder arall i'r aelodau a'r gymuned; Mae preswylwyr Cas-gwent yn teithio 7 milltir, rhai preswylwyr yn teithio 14 milltir – felly mater o ganfyddiad yw hyn. Mae'r pellter i Llan-ffwyst a Five Lanes yn 10 milltir o Frynbuga, ac mae Covid wedi rhoi lens newydd i ni o ran dadansoddi gwastraff. Nid yw hyn yn

esgus dros y penderfyniad, ond mae wedi ein galluogi i ddadansoddi cyfraddau defnydd, a gwneud argymhellion yn yr adroddiad yma.

Yr ymateb clir gan y swyddog heddiw i bryderon Cyngor Tref Brynbuga ynglŷn â'r hyn y bydd y preswylwyr yn ei ddefnyddio yn lle'r ganolfan, yw ailgylchu ar stepen y drws. Bydd hyn yn lleihau teithiau diangen a llygredd aer. Nid yw ail agor y safle yn ystod Covid yn opsiwn hyfyw. Nid yw'r pellteroedd posib y bydd angen eu teithio mor wahanol â hynny i'r hyn y mae disgwyl i breswylwyr eraill Sir Fynwy ei deithio. Mae'r themâu a geir yn ymateb y cyhoedd yn debyg iawn; rydym wedi eu darllen i gyd ac wedi trafod ein hymateb iddynt. Mae gennym ddata sy'n profi'r rhesymeg dros yr opsiwn arfaethedig. Mae'r adroddiad yn edrych ar opsiynau gwahanol, megis a ellir rhedeg y safle'n allanol, ond nid yw hyn yn cael ei argymell os yw'r safle i gael ei redeg yn y modd cywir.

Wrth wneud y dadansoddiad o gyfansoddiad y gwastraff, yn yr amser rhwng yr ymgynghoriad a'r pwynt y rhoddwyd y penderfyniad o'r neilltu, roedd y sefyllfa'n waeth. Wrth i hyd yn oed llai o ailgylchu gael ei wneud, mae angen i'r gyfradd ailgylchu ar stepen y drws gynyddu. Mae angen i ni leihau faint o wastraff sy'n cael ei greu, a lleihau'r teithiau a wneir er mwyn cael gwared â gwastraff bagiau du. Pan ofynnwyd am farn y preswylwyr ar a oedd cyfleusterau gwastraff yn adnodd allweddol iddynt, nid oedd mor bwysig i bobl ag yr oeddem wedi tybio.

O ran sylwadau'r Aelodau, maent wedi gofyn a oes modd ystyried hunan-wasanaeth, ond mae'r swyddog wedi pwysleisio mai dim ond pethau y gellir eu hailgylchu ar stepen y drws neu gyda gwastraff cyffredinol y byddai'r cyfleuster yn ei dderbyn. Gwnaeth y Cynghorydd Batrouni gais i ni ystyried sut y Mae Cyngor Tref Brynbuga wedi cymryd cyfrifoldeb am weithredu cyfleusterau yn y gorffennol, a gofyn i ni ystyried rhoi mwy o amser, a'r cyfle iddynt wneud gwahaniaeth. Gwnaeth y Cynghorydd, hefyd, bwynt ynghylch gwarchod ein hardaloedd gwledig a'u gwasanaethau, ac i'r cyngor roi hyn ar waith. Gwnaeth y Cynghorydd Howarth gais i fan gollwng gwastraff gweddilliol fod ar gael.

**Pleidlais ar Argymhellion**

Cefnogodd y pwyllgor rai o'r argymhellion megis oriau agor wedi eu hadolygu ar gyfer CAGC. Wrth drafod dyfodol canolfan ailgylchu gwastraff cartref Brynbuga, roedd y pwyllgor yn erbyn y cynigion o 4 pleidlais i 3.

4. <u>**Craffu cyn penderfynu ar y Gwasanaeth Gwastraff Gardd.**</u>

Yn dilyn cyflwyniad fideo o ymatebion preswylwyr Sir Fynwy, cyflwynodd y swyddog Laura Carter yr adroddiad.

**Her:**

*Mae cynnydd o £18 i £35 yn 94% ac yn eithafol iawn. Pa fath o ostyngiad o ran cwsmeriaid a ddisgwylir ar gyfer y gwasanaeth, o ystyried cynnydd mor sylweddol? A ydym yn ceisio cael gwared â'r gwasanaeth ar bwrpas?*

Rydym wedi pwysleisio heddiw fod bwlch o ran y cyllid, ac rydym wedi gweithio allan y swm y mae angen i ni ei godi er mwyn cau'r bwlch. Yr argymhelliad heddiw yw ystyried a

chymeradwyo'r taliad a godir. O heddiw ymlaen, gobeithiwn y bydd y syniad o daliad yn cael ei gytuno, er mwyn ein galluogi i fynd â'r penderfyniad i'r cabinet. Nid yw'r adroddiad yn awgrymu y dylid codi'r taliad llawn – rydym yn gofyn i'r Pwyllgor Dethol, heddiw, wneud argymhelliad ar y gost.

*Mae'r adroddiad yn nodi bod nifer o awdurdodau'n defnyddio'r gwasanaeth ailgylchu, ac yn ei gadw'n rhad ac am ddim, er mwyn cadw eu targedau ailgylchu'n uchel. Sut y bydd cynnydd mor sylweddol yn ein helpu yn hyn o beth?*

Ydy, mae cynghorau yn rhoi cymhorthdal i gynnal y gwasanaeth casglu gwastraff gardd. Y sefyllfa y mae rhai yn ei wynebu yw na fyddent yn cwrdd â'u targedau heb wneud hynny; nid yw Sir Fynwy yn y sefyllfa honno eto, roeddem yn agos iawn at gyrraedd y targed o 65% y llynedd. Mae hyn yn peri pryder. Caiff 8% o'n gwastraff gardd ei gasglu ar stepen y drws; rydym o'r farn, hyd yn oed pe byddai hyn yn gostwng, byddai'r rhan fwyaf o'r gwastraff gardd yn cael ei gyflwyno i'n CAGC – felly byddai'n cael ei gynnwys yn ein cyfraddau ailgylchu o hyd, ond mewn ffordd wahanol.
*O ran gwaith llaw a chriwiau, onid oes ystyriaeth wedi ei roi i'r undebau?*
Mae ein Rheolwr Gweithrediadau mewn cyswllt agos gyda'r undebau, ac mae wedi trafod y materion gyda hwy.

*Pam fod y newidiadau yn digwydd nawr? Mae nifer o gamau wedi eu cymryd o ran newidiadau i fagiau – pam na chyflwynwyd biniau ag olwynion arnynt yn gynt, yn enwedig o ystyried eu bod yn cael eu defnyddio'n barod gan awdurdodau eraill?*

Rydym wedi bod yn trafod symud at finiau ag olwynion arnynt ers peth amser, o safbwynt codi a chario. Nododd adroddiad AD diweddar mai anafiadau cyhyrol-ysgerbydol yw'r math o salwch sy'n effeithio fwyaf ar griwiau. Rydym angen caffael cerbydau: fe ddylai'r cerbydau 2012 sydd gennym fod wedi eu disodli'n barod, ac rydym yn cael problemau mawr gyda'r cerbydau yma. Mae llogi cerbydau'n ddrud iawn, felly nid yw'n opsiwn. Mae gwastraff yn wynebu pwysau aruthrol o ran cyllideb yn ystod y flwyddyn, felly gofynnwyd i ni edrych am ffyrdd o'u lleihau.

*Mae'r adroddiad yn crybwyll y posibilrwydd y gallai cwmni o'r Fenni gymryd y gwastraff gardd – a fyddant yn talu am hyn, neu a ydym yn ei basio ymlaen iddynt am ddim?*

Gan Abergavenny Garden Waste mae'r cytundeb i droi gwastraff gardd Sir Fynwy'n gompost, ac rydym yn talu swm benodol iddynt am bob tunnell. Nid oes unrhyw incwm yn dod yn ôl.

*Mae'r adroddiad yn crybwyll y gallai swyddi ddod i ben neu y gallai staff gael eu hail leoli – i ble y byddai'r gweithwyr yn cael eu hail leoli? A yw'r trafodaethau yma wedi digwydd?*

Byddai casglu biniau bob pythefnos yn golygu y byddai angen ail leoli un criw sy'n casglu gwastraff gardd ar hyn o bryd. Y flwyddyn nesaf, rydym yn cyflwyno bagiau coch a phorffor y gellir eu defnyddio eto, a bydd angen criw ychwanegol ar gyfer y y gwaith yma. Mae ein

llwythwyr yn cael eu cyflogi fel llwythwyr, p'unai eu bod yn llwytho gwastraff gardd, ysbwriel neu ailgylchu – yn syml, byddent yn symud i rownd wahanol.

*Beth yw'r rhesymeg dros gasglu bob dwy wythnos – oni fydd hyn yn gor-lwytho cerbydau?*

Beth bynnag fo penderfyniad y Cyngor, mae angen i ni gaffael am gerbydau ar unwaith. Os ydym yn parhau gyda bagiau y gellir eu defnyddio eto, bydd angen i ni gaffael cerbydau sy'n debyg iawn i'r rhai sydd gennym ar hyn o bryd; os mai'r penderfyniad yw casglu biniau bob pythefnos, yna bydd arnom angen cerbydau sydd â liftiau arbenigol er mwyn ein galluogi i gasglu'n gyflymach ac yn fwy effeithiol. Byddai'r pwysau ar gyfer casgliadau bob pythefnos yn gymharol gyda'r pwysau ar hyn o bryd. Byddai maint y rownd yn cael ei lleihau, gan y byddem yn cymryd mwy o gapasiti o bob cartref.

*A yw biniau ag olwynion arnynt 120L wedi cael eu hystyried, fel sy'n cael eu defnyddio ym Mhowys, am y gallai'r rhain fod yn haws i'w symud pan fyddant yn llawn.*

Trafodom hyn gyda Thorfaen y bore ma, gan mai dyma y maent yn ei gynnig i ddinasyddion na all ymdopi â bin 240L. Rydym ni, ar y llaw arall, wedi cynnig bag y gellir ei ddefnyddio eto. Mae'n rhywbeth y gallem edrych arno, ond byddai'r taliad am gasglu yn gorfod aros yr yn fath a'r taliad am fin 240L er mwyn i'r cynnig weithio'n ariannol.
*O ran casglu â chymorth, beth yw'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys fesul achos?*

Pe byddai rhywun yn gwneud cais am gasglu â chymorth, byddai un o'n tîm Addysg Gwastraff unai'n ffonio neu'n ymweld â'r unigolyn, er mwyn eu hasesu yn erbyn meini prawf amrywiol. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys 'a yw'r ymgeisydd yn byw gyda rhywun a allai roi'r bin allan drostynt?', 'pa mor bell y bydd angen i'n criwiau deithio er mwyn gwneud casgliad â chymorth', ac ati

*Gellid dadlau y byddai bin ag olwynion arno yn haws i'w lanhau na'r bagiau presennol.*

Gallem gynnig bag y gellir ei ddefnyddio eto i unrhyw un sy'n teimlo na allant lanhau eu bin yn ddigonol.

*A oes modd ein sicrhau y bydd hawl gan y rheiny sy'n byw mewn tai teras, neu sydd â stepiau neu anawsterau eraill, gadw eu bagiau brown?*
Oes, os yw aelodau'r cyhoedd yn byw mewn tŷ teras, ac nad oes man storio byddwn yn cynnig bagiau y gellir eu hail-ddefnyddio sy'n gyfwerth â'r litrau mewn biniau.

*A ellir defnyddio'r cerbydau newydd i gasglu biniau ag olwynion arnynt yn ogystal â bagiau? A oes modd i'r cyhoedd gael dewis?*

Na, ni fyddai'r lifftiau arbenigol yn addas ar gyfer llwytho bagiau un ar ôl y llall. Mae swyddogion wedi trafod yr opsiwn o roi dewis i'r preswylwyr. Ond pan edrychwyd ar hyn, gwelwyd na fyddai modd i ni gaffael y lifftiau arbenigol, a byddai'n rhaid i ni barhau gyda'r

gwasanaeth gan ddefnyddio'r lifftiau bar 'tuck under'. Byddai hyn yn gwthio ein costau casglu yn ôl i fyny i'r un lle ac yr ydym nawr, sef £660,000. Drwy gynnig bagiau i dai teras, neu i'r rheiny na all ymdopi â bin, credwn y gallwn gynnig nifer fechan o fagiau i'r cwsmeriaid rheiny; fwy na thebyg, byddem yn gwneud rownd ar ddiwrnod gwahanol, gan ddefnyddio cerbyd gwahanol heb lifft. Ond nid ydym yn meddwl y gallwn roi dewis i bobl o ran defnyddio unai bin neu fag.

*Beth fyddai'r gost i'r rheiny sy'n gallu parhau i ddefnyddio bag?*

Yn yr adroddiad, rydym yn cynnig fod yr un pris yn cael ei godi ar gyfer bin ag olwynion arno a'r litrau cyfwerth mewn bagiau. Felly y gost fyddai £35 am un bin neu dri bag, bob pythefnos.

*A oes modd rhoi'r opsiwn i breswylwyr brynu bagiau ychwanegol ar gyfer eu gwaith gardd ee ar gyfer y rheiny sydd â thir anwastad sydd angen cario eu chwyn i'r bin?*

Unwaith y byddwn wedi cyrraedd y pwynt o ran preswylwyr gyda thir anwastad neu tramwyfeydd hir, mae'n anodd iawn mesur, er mwyn cytuno/anghytuno. Ar y pwynt yma, mae'n debygol na fyddai modd darparu'r gwasanaeth. Pe byddem yn rhoi dewis i bobl, ac yn diweddu gyda gormod o fagiau y gellir eu defnyddio eto, ni fyddai modd i ni eu rheoli o fewn ein rowndiau presennol, ac o bosib, byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol o ran criwiau a cherbydau.

**Sylwadau pellach y Cynghorwyr:**

Y Cynghorydd Batrouni: Roeddwn o dan yr argraff bod y cynnydd o 94% yn cael ei argymell oherwydd yn Atodiad 4 mae'n dweud 'Cynigiodd Sir Fynwy newid a chost' Os nad dyma'r bwriad penodol, mae angen eglurder. Os mai'r gwir reswm dros y newid yw pwysau o ran costau, rwy'n teimlo bod angen datgan hynny'n glir. Os oes ymgynghoriad wedi bod gyda'r undebau, mae angen i'r adroddiad adlewyrchu hynny. Hoffwn wybod beth yw'r goblygiadau posib o ran gostyngiad yn y defnyddwyr gwasanaeth, a yw'r cynnydd yn gynnydd o 94% neu lai, ac fe hoffwn i'r pwyllgor weld yr adroddiad AD sy'n cyfeirio at anafiadau 'cyhyrol-ysgerbydol'.

Y Cynghorydd Pratt: Yr hyn sy'n cael ei gynnig sy'n rhoi'r gwerth am arian mwyaf i'n cwsmeriaid, ac i ni o ran parhau gyda'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan ein cwsmeriaid ac mae'n rhaid i ni gofio nad yw'n un statudol – gan nad yw'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei wneud, mae angen i ni feddwl am faint o gymhorthdal yr ydym yn fodlon ei roi i'w gynnal. Mae llawer o breswylwyr nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth (mae ganddynt ardd fechan, neu dim gardd o gwbwl), felly mae angen i ni ystyried a fyddent yn hapus i roi cymhorthdal er mwyn cynnal y gwasanaeth i eraill. Ydym, rydym yn talu am wasanaethau nad ydynt yn cael eu defnyddio gan bawb, ond mae'r rhain yn dueddol o fod yn orfodol ee ysgolion. Rydym yn mynd trwy 12,000 bag y flwyddyn; gan ein bod wedi datgan Argyfwng Hinsawdd, mae'n rhaid i ni feddwl am ffyrdd y gallwn leihau'r gwastraff yma. Caiff y biniau eu gwneud gyda 95% o blastig sydd wedi ei ailgylchu, a chânt eu gwneud yn y DU – nid fel y bagiau presennol. Byddai rhoi cymhorthdal er mwyn cynnal y gwasanaeth yma'n

golygu torri cyllideb gwasanaeth arall. Bydd nifer o gwsmeriaid yn parhau i dalu llai na £1 yr wythnos am y gwasanaeth yma.

Y Cynghorydd Easson: Nid wyf yn teimlo bod y gwahaniaeth rhwng cymryd bagiau porffor a glas nawr, a chymryd bagiau *hessian* porffor a glas yn eglur. Rwy'n bryderus ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer casglu â chymorth, gan y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud gan y cyngor, er mai'r unigolyn sy'n deall eu gallu a'u hamgylchiadau'n well.

Y Cynghorydd Powell: O ran cymhorthdal, dylid cofio mai Sir Fynwy yw'r Cyngor Sir a ariennir waethaf – gall cynghorau eraill redeg y gwasanaeth am ddim am fod y cyllid ganddynt, ond pe byddem ni'n gwneud hyn, y trethdalwr a fyddai'n ysgwyddo'r baich.

Y Cynghorydd Woodhouse: Tai teras yw tua 95% o fy ward i. Calonogol yw clywed y gallant gael y bagiau. Hoffwn weld y cyfle hwn yn cael ei gynnig i bobl heb iddynt orfod cymryd rhan mewn proses fetio – hoffwn iddynt gael dewis. Does dim mynediad i'r ochor gan nifer o dai, felly byddai angen iddynt ddod â'r bin trwy'r tŷ. Rwy'n bryderus ynglŷn â strydoedd cul, sydd â cheir wedi eu parcio yn rhannol neu'n gyfan gwbwl ar y palmant. Efallai y byddai biniau'n cael eu gadael allan trwy'r dydd gan fod pobl yn gweithio, o leiaf y gellir gwthio bag i'r naill ochor er mwyn ei atal rhag bod yn rwystr. Mae llwybrau diogel i'r ysgol yn bryder penodol. Byddwn yn gofyn i fagiau fod ar gael yn rhwydd ar gyfer y mathau yma o strydoedd. Rwy'n bryderus y byddai nifer y bobl sydd ag un bag ar hyn o bryd yn gostwng, gan y byddai'n rhaid iddynt dalu £35 am fin heb fod angen y capasiti.

Y Cynghorydd Webb: Rwyf hefyd yn bryderus ynglŷn â pheidio â rhoi dewis i'r preswylwyr, yn enwedig o ystyried sefyllfa rhywun sydd â gardd fechan ac sydd eisiau un bag yn unig. Rwy'n credu y dylent gael dewis.

Y Cynghorydd Brown: Yn fy ward i, mae llethrau uchel iawn ar dramwyfeydd: Nid wyf yn sicr pa mor hawdd fyddai symud bin ag olwynion arno yn y sefyllfa yma. Da fyddai gweld yr hyblygrwydd y mae swyddogion yn ei ddisgrifio yn cael ei gynnwys yn yr argymhellion, er mwyn tawelu meddyliau preswylwyr ac aelodau. Rwy'n awgrymu, felly, y dylid cael hyblygrwydd o fewn y system casglu gwastraff gardd er mwyn cael darpariaeth bag gardd ar gyfer yr henoed, pobl fregus, y rheiny sydd â llethrau anwastad ac/neu broblemau tir a phroblemau storio. O ran costau, mae cydbwysedd rhwng y costau sy'n cynyddu, a'r cwsmeriaid a gollir. At ei gilydd, rwy'n pendroni pa mor gost-effeithiol yw hyn mewn gwirionedd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Rydym wedi trafod pa mor hawdd yw defnyddio bagiau a biniau ag olwynion arnynt; mae'n ymddangos mai dewis personol yw hyn. Bydd yr opsiwn y byddwn yn penderfynu arno'n dibynnu ar y math o gerbyd y byddwn yn ei gaffael, un sy'n casglu biniau a bagiau, neu bydd angen casgliadau gwahanol gyda cerbyd gwahanol. Gellir edrych ar y posibilrwydd o gyflwynol biniau llai, 120L, ond byddai cost y casgliad angen aros yr un fath. Wrth wneud asesiadau ar gyfer pobl sydd angen casglu â chymorth, bydd hyn yn cael ei wneud unai dros y ffôn neu

wyneb yn wyneb (er ni fydd hyn yn digwydd o dan ganllawiau presennol Covid) Mae glanhau biniau wedi cael ei grybwyll, ac eto, mae'n ymddangos mai barn bersonol yw hyn. Mae aelodau wedi gofyn am sicrwydd y gellir rhoi bag i breswylwyr sydd ag anawsterau o ran mynediad, ac maent wedi gofyn am hyblygrwydd, yn enwedig o ran oed, tir ar lethr, ac ati. Fodd bynnag, bydd hyn yn creu mwy o gostau. Bydd swyddogion yn sicrhau bod yr adroddiad AD yn cael ei anfon at holl aelodau'r pwyllgor, a byddant yn darparu'r ffigurau o ran y gostyngiad yn y cwsmeriaid.

**Pleidlais ar Argymhellion**
Ar gyflwyno biniau ag olwynion arnynt, roedd y pwyllgor yn erbyn yr argymhellion.

The meeting ended at **5.55 pm**